bydd barod

Diwylliant a Llundain 2012

Diwylliant a'r Gemau Olympaidd

Pan gychwynnodd Pierre de Coubertin y Gemau modern ym 1894, sicrhaodd fod celfyddyd a diwylliant yn rhan bwysig o'r Gemau yn ogystal â chwaraeon. Mewn gwirionedd, cafwyd cystadlaethau peintio, cerflunio a cherddoriaeth hyd at 1948! Heddiw mae diwylliant yn dal i fod yn rhan hanfodol o'r Gemau gyda digwyddiadau megis gwyliau, arddangosfeydd a chyngherddau yn cael eu cynnal wrth arwain at, ac yn ystod, y Gemau.

Diwylliant a Llundain 2012

Mae Llundain yn ei Holympiad Diwylliannol. Dyma'r pedair blynedd sy'n arwain at y Gemau. Mae'r Olympiad Diwylliannol yn rhan wirioneddol bwysig o weledigaeth Llundain 2012 – bydd yn caniatáu i bobl gymryd rhan mewn digwyddiadau a dathliadau diwylliannol ym mhob cymuned yn Llundain ac yn y DU drwyddi draw – gan helpu i greu un o'r dathliadau mwyaf yn hanes y DU.

Mae'r Olympiad Diwylliannol yn cychwyn yn swyddogol yn nhymor yr Hydref 2008 ac yn para hyd at Gemau Llundain 2012.

Bydd yr Olympiad Diwylliannol yn cynnwys llawer o brosiectau. Bydd y prosiectau hyn i gyd yn:

- Dathlu bod Llundain a'r DU gyfan yn croesawu'r byd
- Ysbrydoli a chynnwys pobl ifanc
- Creu etifeddiaeth bositif

Seremoniau

Bydd Llundain 2012 yn cynnwys llawer o Seremoniau - yn cynnwys y Seremoniau Trosglwyddo yng Ngemau Beijing yn 2008, y Seremoniau Agor a Chloi yn 2012, y Seremoniau Medalau a Thaith Gyfnewid y Dortsh. Bydd y rhain yn ddigwyddiadau gweledol byw rhyfeddol fydd yn cael eu gwylio ar deledu gan filiynau o bobl.

Prosiectau mawr

Bydd yna ddeg o brosiectau diwylliannol mawr ar hyd y DU fydd yn ffurfio un rhan o'r Olympiad Diwylliannol. Mae'r rhain yn cynnwys gŵyl ar gyfer pobl ifanc yn unig, prosiect celfyddydol a chwaraeon i bobl anabl, prosiect ffilm a fideo a llawer mwy.

Gŵyl i'r DU gyfan

Trwy gyfrwng gŵyl y DU gyfan bydd cymunedau a phobl ifanc ar draws y DU yn gallu cymryd rhan mewn miloedd o ddigwyddiadau lleol a rhanbarthol.